

Canllawiau ar gyfer defnyddio'r
Grant Amddifadedd Disgyblion

Beth sydd wir yn gweithio?

Bwriad y canllawiau hyn yw rhoi cyngor
ymarferol i ysgolion ar y ffordd orau o
ddefnyddio eu Grant Amddifadedd Disgyblion.
Mae'n ategu'r canllawiau i ymarferwyr a
gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2013 ar y Grant
Amddifadedd Disgyblion 2013–2015.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



Nid oes fawr o amheuaeth fod cydberthynas uniongyrchol yn bodoli rhwng cyrhaeddiad addysgol a ffyniant economaidd ac, yn syml, mae llawer o blant yr effeithiwyd arnynt nad ydynt yn llwyddo i wireddu eu llawn botensial.

Mae tua un o bob pum disgybl ysgol gynradd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim ar hyn o bryd. Ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, bydd llai na 70% o'r rhain yn cyrraedd y lefelau disgwyliedig, o'i gymharu ag 88% o blant o deuluoedd gwell eu byd. Erbyn y byddant yn 16 oed, mae plant o deuluoedd gwell eu byd fwy na dwywaith yn fwy tebygol o gyflawni pum pwnc TGAU da, na'r rhai o gartrefi difreintiedig.

Mae hyn yn golygu bod tua un o bob pum disgybl yn methu â chael canlyniadau da, nid oherwydd diffyg gallu, ond oherwydd eu bod o gefndir tlawd. Mae'r Grant Amddifadedd Disgyblion (GAD) yn gyfle i ysgolion fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau hyn.

Beth yw'r Grant Amddifadedd Disgyblion?

Cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yw'r GAD, i oresgyn y rhwystrau ychwanegol y mae disgyblion tlotach yn eu hwynebu sy'n eu hatal rhag gwireddu eu llawn botensial. Gallai hyn gynnwys disgyblion eithriadol o alluog nad ydynt yn gwireddu eu potensial personol llawn oherwydd eu cefndir teuluol, er ei bod yn ymddangos eu bod yn gallu ymdopi o'u cymharu â'u cyfoedion.

Sut y gall ysgolion wneud y defnydd gorau o'r GAD

Mae rhai ymyraethau yn fwy llwyddiannus nag eraill, ac nid y dulliau drutaf yw'r rhai gorau bob amser.

Mae Pecyn Cymorth The Sutton Trust Education Endowment Foundation (EEF)¹ yn cynnig gwybodaeth am amrywiaeth o ymyraethau y gellir eu defnyddio i helpu plant difreintiedig i wireddu eu potensial.

Mae'r dadansoddiad a'r crynodeb sydd ynddo o waith ymchwil rhyngwladol helaeth ac astudiaethau seiliedig ar dystiolaeth wedi dod i'r casgliad bod y dulliau mwyaf effeithiol yn cynnwys:

- adborth penodol
- metawybyddiaeth a hunanreoleiddio
- dysgu gan gymheiriaid.

Ar eu pennau eu hunain, neu mewn cyfuniad, gall y dulliau hyn gostio llai na £170 y disgybl y flwyddyn.

Erbyn y byddant yn 16 oed, mae plant o deuluoedd gwell eu byd fwy na dwywaith yn fwy tebygol o gyflawni pum pwnc TGAU da, na'r rhai o gartrefi difreintiedig.



Mae gwefan Dysgu Cymru yn cynnwys dolen i becyn cymorth y Sutton Trust yn yr adran Gwella Tlodi³. Ceir astudiaethau achos, gwaith ymchwil ac adroddiadau ac adnoddau defnyddiol yma hefyd.

Nid yw rhai dulliau mor effeithiol ag y byddech yn meddwl, ond mae ffyrdd o wella'r rhain. Yn arbennig, mae'n ymddangos yn amlwg y bydd cyflogi cynorthwywyr ystafell ddosbarth yn ychwanegu gwerth at yr hyn a ddarperir yn yr ystafell ddosbarth. Nid yw hynny o reidrwydd yn wir. Mae gwaith ymchwil⁴ wedi dangos mai'r mwyaf o gymorth y mae disgybl yn ei dderbyn gan gynorthwydd addysgu, y lleiaf o gynnydd y mae'r plentyn yn ei wneud. Y rheswm am hyn yw bod yr athro/athrawes yn arwain y dosbarth cyfan,

a'r cynorthwywyr ystafell ddosbarth fel rheol yn treulio amser unigol gyda'r rhai ag anghenion cymorth ychwanegol. Mewn geiriau eraill, mae'r plant hynny â'r anghenion mwyaf yn treulio'r mwyaf o amser gyda'r oedolyn lleiaf cymwysedig yn yr ystafell ddosbarth.

Fodd bynnag, gellir defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion i ariannu strategaethau sy'n cynyddu effaith cynorthwywyr addysgu. Mae hyn yn cynnwys hyfforddi athrawon i weithio gyda chynorthwywyr addysgu, a hyfforddi cynorthwywyr addysgu ar asesu ar gyfer dysgu, neu ar ymyraethau wedi eu targedu fel geirfa allweddol a fydd yn galluogi disgyblion i ddysgu gyda'r dosbarth cyfan.

1. <http://dysgu.cymru.gov.uk/resources/sutton-trust-education-endowment-foundation/?lang=cy>
2. <http://www.estyn.gov.uk/download/publication/260005.2/arfer-effeithiol-wrth-fynd-ir-afael-thlodi-ac-anfantais-mewn-ysgolion-tachwedd-2012/>
3. <http://dysgu.cymru.gov.uk/improvementareas/poverty/?lang=cy>
4. Reassessing the Impact of Teaching Assistants, Routledge, 2010

Ffynhonnell dda arall o wybodaeth am yr hyn sy'n gweithio yw dogfen Estyn Arfer Effeithiol Wrth Fynd i'r Afael â Thlodi ac Anfantais². Mae hon yn rhestru 10 strategaeth y mae ysgolion effeithiol mewn amgylchiadau heriol yn eu dilyn yn dda.

Y 10 Strategaeth orau ar gyfer mynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion

- 1 Defnyddio dull ysgol gyfan, strategol i fynd i'r afael ag anfantais
- 2 Defnyddio data i olrhain cynnydd disgyblion dan anfantais
- 3 Gwella medrau llythrennedd a dysgu disgyblion dan anfantais
- 4 Datblygu medrau cymdeithasol ac emosiynol disgyblion dan anfantais
- 5 Gwella presenoldeb, prydlondeb ac ymddygiad disgyblion dan anfantais
- 6 Teilwra'r cwricwlwm yn unol ag anghenion disgyblion dan anfantais
- 7 Darparu profiadau cyfoethocach ac amrywiaeth o weithgareddau a thripiâu allgyrsiol
- 8 Gwrando ar ddisgyblion dan anfantais a rhoi cyfleoedd iddynt gymryd rhan lawn ym mywyd yr ysgol
- 9 Ymgysylltu â rhieni a gofawyr disgyblion dan anfantais
- 10 Datblygu arbenigedd staff i fodloni anghenion disgyblion dan anfantais

Gwneud cynlluniau GAD nawr

Mae'r GAD yn grant â chyfyngiad amser iddo, felly dylai ysgolion fod yn cynllunio sut i wneud eu hymyraethau'n gynaliadwy. Dylai hyn gynnwys datblygiad staff, gweithio gyda rhieni/gofalwyr, strategaethau ysgol gyfan, fel datblygu systemau olrhain data effeithiol, a'r defnydd o raglenni dal i fyny.⁵

Sut y bydd ysgolion yn cael eu dwyn i gyfrif?

Cynlluniau Datblygu Ysgol yw lle y bydd angen i ysgolion ddangos eu blaenoriaethau a'u targedau; sut maent yn nodi anghenion disgyblion a pha fesurau datblygu staff fydd yn cael eu rhoi ar waith i ddiwallu'r anghenion hynny. Dylid nodi'r rhesymeg dros sut y defnyddir cyllid y GAD yn y Cynllun Datblygu Ysgol⁶. Bydd y consortia addysg rhanbarthol yn asesu pa mor effeithiol yw gwaith cynllunio ysgolion.

O fis Medi 2014, bydd arolygwyr Estyn yn ystyried hefyd sut y caiff disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim eu cefnogi i wella eu cyfraddau cyrhaeddiad a pha mor effeithiol y defnyddir adnoddau fel y GAD.

Ble i ddod o hyd i wybodaeth am yr hyn sy'n gweithio

- Pecyn Cymorth The Sutton Trust - Education Endowment Foundation (EEF)
- Estyn - Arfer Effeithiol Wrth Fynd i'r Afael â Thlodi ac Anfantaish mewn Ysgolion
- Adran Gwella Tlodi gwefan Dysgu Cymru



Disgyblion GAD: eu nodi a'u helpu

Mae gwaith ymchwil yn helpu i nodi priodweddau plant sy'n gymwys i dderbyn y Grant Amddifadedd Disgyblion yn ogystal â'r meysydd lle y gellid defnyddio'r cyllid i sicrhau'r fantais orau.

Ar gyfartaledd, o'u cymharu â'u cyfoedion, mae disgyblion difreintiedig:

- yn derbyn ychydig iawn neu ddim cymorth gartref ar gyfer eu dysgu⁷
- yn tueddu i fod â sgiliau iaith a chyfathrebu gwanach⁸
- yn fwy tebygol o gael anawsterau sylweddol gyda sgiliau llythrennedd a rhifedd sylfaenol⁹
- yn cael anawsterau ymddygiadol yn aml¹⁰
- yn llai tebygol o gredu bod ganddynt unrhyw reolaeth dros ddigwyddiadau sy'n effeithio arnynt¹¹.

Y ffaith amdani yw bod mwy nag un o bob pedwar o'r plant hyn yn credu 'nad yw pobl fel nhw yn llwyddo mewn bywyd'¹².

Plant fel Cai...

Stori Cai

Mae Cai yn wyth oed. Prin iawn y mae'n siarad, a phan ei fod yn siarad mae ei eirfa'n gyfyngedig iawn. Nid yw ei rieni/gofalwyr yn gweithio, nid oes neb yn ei deulu estynedig yn gweithio mewn gwirionedd. Nid oes unrhyw lyfrau yn ei dŷ ac nid yw braidd byth yn cael y cyfle i fynd y tu hwnt i'r ystâd lle mae'n byw.

Roedd yn blentyn hapus pan ddechreuodd ei fywyd yn yr ysgol, ond wrth i sgiliau ei ffrindiau ddatblygu, ni ddatblygodd rhai Cai. Y mwyaf anodd yr oedd yn ei chael i ymdopi, y mwyaf ar wahân oedd e, ac wrth i'w rwystredigaeth gynyddu, felly hefyd ei ymddygiad gwael.

Roedd Cai fwy neu lai wedi rhoi'r ffidil yn y to ac yntau ddim ond yn saith oed, gan gredu bod addysg i'w oddef yn hytrach na'i fwynhau. Roedd ei fam, ei dad a'i daid yn teimlo'n union yr un fath ac roedd y genhedlaeth nesaf o fethiant wedi cychwyn.

Beth y gall ysgolion ei wneud i helpu plant fel Cai?

Gall y GAD ddyrannu adnoddau i blant fel Cai i'w helpu gyda'r sgiliau pwysig mewn bywyd; y gallu i ddarllen, ysgrifennu a chyfathrebu, ynghyd â gallu gwneud mathemateg sylfaenol.

Gall defnydd effeithiol hirdymor o'r GAD wir eu helpu i lwyddo er gwaethaf pob disgwyl. Mae gwaith ymchwil wedi dangos y gall ysgolion cynradd effeithiol alluogi plant difreintiedig i lwyddo gan eu helpu i ddal i fyny, ailsefydlu ac atgyfnerthu tybiaeth gadarnhaol o'r ysgol a dysgu a gwell hunan effeithiolrwydd.¹³

Mae ymyraethau ym mywydau plant fel Cai yn hanfodol, a dyma'r ymyraethau y gall y GAD dalu amdanynt.

leithoedd, llythrennedd a rhifedd

Sgiliau personol a chymdeithasol cryf

Cefnogaeth rhieni

5. <http://dysgu.cymru.gov.uk/resources/catchupguidance/?lang=cy>

6. Mae'n rhaid i liniaru effaith tlodi fynd ymhellach na gwneud penderfyniadau ynglŷn â sut bydd ysgol yn defnyddio'r grant ei hun. Er mwyn gwneud gwahaniaeth, mae'n rhaid rhoi lle canolog i fynd i'r afael ag effaith tlodi . . . Er bod y rhan fwyaf o ysgolion yn darparu hyfforddiant helaeth i'r staff ar addysgu llythrennedd i bob disgybl, . . . ychydig iawn ohonynt sy'n cynllunio hyfforddiant ar sut i leddfu effeithiau tlodi ar ddysgwyr unigol y mae anfantais yn creu rhwystrau iddynt rhag dysgu.

Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, 2012-2013

7. Poorer Children's Educational Attainment: how important are attitudes and behaviours? Sefydliad Joseph Rowntree, 2010

8. Low Income and Early Cognitive Development in the UK. Sutton Trust 2010.

9. The long term costs of literacy difficulties and The Long term cost of numeracy difficulties, Every Child A Chance Trust, 2009

10. Breaking the link between Disadvantage and low attainment Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd, 2009

11. Tackling Low Educational achievement, Sefydliad Joseph Rowntree 2007

12. 7 Key Truths about Social Mobility. The interim report of the all-parliamentary group on social mobility, Mai 2012

13. Performing Against the Odds: developmental trajectories of children in the EPPSE 3-16 Study, Yr Adran Addysg 2011

Beth fydd yn gweithio i ysgolion?

Ceir digonedd o dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio ar wefan Dysgu Cymru, ond mae'n rhaid cofio efallai na fydd yr hyn sy'n gweithio'n dda i un ysgol mor effeithiol mewn ysgol arall lle mae'r amgylchiadau yn wahanol. Dyna pam mae'n hanfodol cael Cynllun Datblygu Ysgol effeithiol sy'n adlewyrchu anghenion datblygu aelodau'r staff. Mae Pecyn Cymorth The Sutton Trust yn ffynhonnell ddibynadwy a chyfredol o wybodaeth am ymyraethau i wella cyrhaeddiad disgyblion difreintiedig. Cynghorir ymarferwyr i edrych ar y Pecyn Cymorth a dewis yr hyn sydd orau i'w hysgol nhw ohono.

Mae'r Pecyn Cymorth hefyd yn rhestru dulliau sydd wedi gweithio'n dda yn ogystal â'r rhai sydd leiaf tebygol o fod yn effeithiol.

Yr hyn nad yw wedi bod mor llwyddiannus:

- Cyflogi cynorthwyyr addysgu ychwanegol (ac eithrio lle mae athrawon a chynorthwyyr addysgu yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd)
- Grwpio yn ôl gallu
- Lleihau maint dosbarthiadau ysgol gynradd (ac eithrio'r dosbarth derbyn a B1 pan gânt eu gostwng i lai na 15)
- Cyflog athrawon sy'n seiliedig ar berfformiad

Ond mae llawer o bethau wedi gweithio'n dda...

1. Adborth effeithiol ar ddysgu.

Gellir gwella cyrhaeddiad yn effeithiol iawn trwy roi adborth i ddisgyblion ac athrawon ar berfformiad o'i gymharu ag amcanion, os yw'n golygu herio tasgau neu amcanion, yn canolbwyntio mwy ar yr hyn sy'n gywir na'r hyn sy'n anghywir ac yn annog y dysgwr yn hytrach na bygwth ei hunan-barch.

2. Metawybyddiaeth a hunanreoleiddio

Mae addysgu strategaethau i blant ysgogi eu hunain, i fonitro a gwerthuso eu dysgu eu hunain, yn ddull effaith uchel sydd wedi profi i fod yn effeithiol. Ceir adnoddau i ysgolion ar ddefnyddio metawybyddiaeth ar wefan Dysgu Cymru¹⁴

3. Dysgu gan gymheiriaid

Yn y dulliau hyn, mae dysgwyr yn gweithio mewn parau neu grwpiau bach i ddarparu cefnogaeth addysg eglur i'w gilydd. Mae'r hwb i gyrhaeddiad a ddarperir drwy ddysgu gan gymheiriaid yn amlwg i'r sawl sy'n addysgu a'r sawl sy'n dysgu, yn enwedig mewn dysgu traws-oedran

4. Ymyrraeth gynnar

Mae gwaith ymchwil yn dangos bod darpariaeth blynyddoedd cynnar o ansawdd uchel, â phwyslais addysgol cryf a gweithgareddau sy'n cefnogi cysyniadau darllen a rhifau cynnar, yn llesol i blant difreintiedig.

Dyma'r pedwar canfyddiad uchaf ar wefan y Sutton Trust, ac mae'r tri dull cyntaf yn rhad ac yn gymharol rwydd eu rhoi ar waith. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd ymyraethau cynnar ac mae gwybodaeth am sut yr ydym yn bwriadu rhoi hyn ar waith ledled Cymru ar gael yn Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant¹⁵

Mae Pecyn Cymorth EEF y Sutton Trust yn cynnwys gwybodaeth am gyfanswm o 33 o wahanol ymyraethau ac yn gwerthuso pa mor effeithiol ydynt o ran cynyddu cyrhaeddiad y dysgwr yn erbyn faint mae'n ei gostio i'w rhoi ar waith. Er mwyn helpu ysgolion i ddeall effeithiolrwydd ymyraethau yn eu hysgolion, mae'r Pecyn Cymorth hefyd yn cynnig Canllaw Hunanwerthuso defnyddiol¹⁶

Mae Gwasg Prifysgol Rhydychen¹⁷ yn awgrymu'r ffyrdd canlynol o wella effaith cynorthwyyr addysgu:

- gwerthuso effaith cynorthwyyr addysgu ac olrhain canlyniadau i ddisgyblion a gefnogir gan y Grant Amddifadedd Disgyblion
- defnyddio cynorthwyyr addysgu ar gyfer ymyraethau penodol a chyn-addysgu fel geirfa allweddol, i alluogi disgyblion i ymgysylltu'n fwy effeithiol ag addysg y dosbarth cyfan
- cefnogi hyfforddiant ar y cyd i athrawon a chynorthwyyr addysgu a rhoi amser ar gyfer cynllunio, monitro a gwerthuso ymyraethau ar y cyd
- cefnogi datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) i athrawon ar weithio gyda chynorthwyyr addysgu
- cefnogi DPP i gynorthwyyr addysgu ar asesu ar gyfer dysgu, a'r defnydd o gwestiynu i gynorthwyo disgyblion i fod yn ddisgyblion annibynnol.



Esiampl ddisglair

Yn Ysgol Gynradd Mount Stuart yng Nghaerdydd, mae 31% o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac mae 89% o'r disgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae nodweddion rhagorol o ran yr arweinyddiaeth a'r ddarpariaeth yn yr ysgol, ac mae hyn yn arwain at ddeilliannau rhagorol ar gyfer disgyblion. Mae'r staff yn mynd ati'n systematig i fonitro'r addysgu a'r dysgu er mwyn darparu llwyfan cadarn ar gyfer cynllunio'r cyflwyno mewn ffyrdd ymatebol a llawn dychymyg. Mae trefniadau cydweithio rhagorol rhwng yr ysgol, y Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig a Theithwyr a sefydliadau eraill, sy'n sicrhau bod disgyblion o grwpiau sydd mewn perygl o dangyflawni yn gwneud cynnydd da o leiaf, a chynnydd rhagorol yn aml, yn enwedig yn eu medrau llfarededd ac ysgrifennu. Mae staff yr ysgol yn gweithio ochr yn ochr â staff o asiantaethau allanol fel y gallant ddysgu oddi wrth weithwyr arbenigol ynghylch sut i barhau â'r rhaglenni arbenigol gyda'r disgybl rhwng ymweliadau gan yr asiantaethau allanol. Mae'r ysgol hefyd yn gweithio'n eithriadol o dda gyda rhieni/gofalwyr a'r gymuned leol. Ceir partneriaeth effeithiol iawn gyda busnes lleol, y mae ei gyflogaion yn darllen gyda'r disgyblion bob wythnos. Mae sesiynau llythrennedd i deuluoedd arloesol a boreau agored yn hyrwyddo perthnasoedd agos ac yn galluogi rhieni/gofalwyr i gefnogi eu plant gartref. Caiff y partneriaethau hyn a reolir yn dda effaith gadarnhaol ar ddeilliannau ar gyfer disgyblion difreintiedig.

*Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi
Dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, 2012-2013*

Mae ysgolion fel Mount Stuart yn defnyddio dull ysgol gyfan o fynd i'r afael ag anfantais ac mae ganddynt arweinyddiaeth gref a chyson ar y dull hwnnw. Mae'n rhaid i'r penaeithiaid wneud yn siŵr eu bod yn datblygu arbenigedd aelodau staff, yn cryfhau cysylltiadau gyda'r gymuned ac yn sicrhau cefnogaeth rhieni ar gyfer dysgu.

Yn ogystal â nodweddion cyffredinol ysgolion cefnogol, mae ganddynt:

- ddysgu y tu allan i oriau'r ysgol
- grwpiau anogaeth i ddisgyblion, rhai ohonynt yn cynnwys rhieni/gofalwyr
- cyfleoedd dysgu i deuluoedd
- rhaglenni rianta
- cefnogaeth amlasiantaeth ar y safle
- cysylltiadau cryf â'r gymuned leol a chyfleoedd ar gyfer cyfranogiad cymunedol
- ymrwymiad cyflogwyr lleol.

14. <http://learning.wales.gov.uk/learningpacks/pisa/introduction-to-metacognition/?skip=1&lang=cy>

15. <http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/building-a-brighter-future/?jsessionid=D72622CF0BD0F0074C90E2868A30AA42?lang=en>

16. <http://educationendowmentfoundation.org.uk/evaluation/diy-evaluation-guide/>

17. *The Pupil Premium: Making it work in your school*, Gwasg Prifysgol Rhydychen, 2012

Camau i lwyddiant – pwyntiau gweithredu

- 1** Crynhoi'r data sy'n bodoli eisoes ar ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim; eu lefelau siarad a gwrandao, llwyddiannau llythrennedd a mathemateg, absenoldeb a gwaharddiadau, datblygiad personol a chymdeithasol a lefel ymgysylltiad rhieni i gynorthwyo i gynllunio a thargedu ymyraethau. Defnyddio data i olrhain a yw'r ymyraethau yn gwneud cynnydd mesuradwy mewn gwirionedd.
- 2** Cyfeirio at wefan Dysgu Cymru a Phecyn Cymorth y Sutton Trust am syniadau ar ba ymyraethau i'w defnyddio ac i gynllunio eich dulliau gwerthuso.
- 3** Gwerthuso prosesau casglu data presennol i sicrhau bod gwybodaeth yn gywir a bod y dull yn gyson ar draws yr ysgol gyfan, gan alluogi cymariaethau i gael eu gwneud rhwng grwpiau, dosbarthiadau, grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol.
- 4** Defnyddio eich data i werthuso'r ddarpariaeth bresennol a gweld a yw'r effaith dybiedig yn cyd-fynd â'r cynnydd mesuradwy.
- 5** Ystyried gweithio gydag ysgolion eraill i gymharu canlyniadau ac olrhain cynnydd disgyblion - efallai y gellid rhannu adnoddau i fynd i'r afael â phroblemau yn eich dalgylch, ee DPP ar y cyd.
- 6** Cynnwys a hysbysu disgyblion, aelodau staff a rhieni/gofalwyr yn eich strategaethau i godi lefelau cyrhaeddiad.
- 7** Datblygu cynllun i ymgysylltu â rhieni/gofalwyr. Bydd canllaw ar hyn yn cael ei gyhoeddi gan yr Adran Addysg a Sgiliau yn 2014.
- 8** Sicrhau bod llywodraethwyr yn ymwybodol o'r blaenoriaethau rydych chi wedi eu nodi.
- 9** Ystyried a yw eich dull ysgol gyfan wedi ei gynllunio i sicrhau addysgu o'r ansawdd uchaf i bob disgybl o ddydd i ddydd. Sicrhewch eich bod yn gwneud popeth a allwch i atal bylchau cyrhaeddiad ac i alluogi plant i gadw i fyny cyn bod unrhyw fylchau o'r fath yn datblygu.
- 10** Gwerthuso a ydych chi'n nodi plant sydd angen cymorth ychwanegol o'r cychwyn cyntaf, ac yn parhau i roi cefnogaeth am gyhyd ag y mae ei hangen arnynt.
- 11** A yw eich dull ABCh yn effeithiol ar gyfer pob disgybl? A oes angen i chi ddarparu cefnogaeth unigol/mewn grŵp bach i blant â'r anghenion mwyaf yn y maes hwn?
- 12** Gwerthuso'r ymyraethau mewn llythrennedd a rhifedd sydd gennych ar waith – a oes tystiolaeth gadarn y byddant yn gweithio?
- 13** Sicrhau bod aelodau staff sy'n cefnogi'r plant â'r anawsterau mwyaf o ran dysgu wedi eu hyfforddi'n dda a bod effaith eu hymyraethau yn cael ei monitro a'i gwerthuso.
- 14** Ystyried defnyddio'r GAD i ariannu hyfforddiant i gynorthwywyr addysgu mewn rhaglenni ymyrraeth penodol.
- 15** Defnyddio'r GAD i ariannu hyfforddiant ar y cyd i athrawon/ cynorthwywyr addysgu ar weithio gyda'i gilydd.
- 16** Defnyddio arsylwadau yn yr ystafell ddosbarth i archwilio a yw sgiliau gwrandao a chydweithio yn cael eu haddysgu'n ymarferol. Ystyried defnyddio rhaglenni "dosbarth cyfan yn meddwl gyda'i gilydd"¹⁸ priodol.
- 17** Ystyried a oes disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim a fyddai'n elwa ar ymyraethau mewn grŵp bach.

Adnoddau

Estyn Arfer Effeithiol Wrth Fynd i'r Afael â Thlodi ac Anfantais Mewn Ysgolion (Tachwedd 2012)
Estyn Gweithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol (Tachwedd 2013)
Pecyn Cymorth EEF Sutton Trust
Y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion a'r Grant Amddifadedd Disgyblion 2013 - 2015
www.dysgu.cymru.gov.uk
<http://www.teachingassistanresearch.co.uk/home/4581699947>

ISBN: 978 1 4734 1184 5

© Hawlfraint y Goron Ebrill 2014
WG20552

18. <https://thinkingtogether.educ.cam.ac.uk/about/http://learning.wales.gov.uk/resources/how-to-develop-thinking-and-assessment/?lang=en>